

## **Dogfen Ymgynghori – Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned – Shotton**

### **Cefndir y cynllun**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â phryderon diogelwch ar y ffyrdd a thagfeydd yn yr ardaloedd ger Ysgol Tŷ Ffynnon ac Ysgol Croes Atti, er budd preswylwyr lleol a phlant sy'n mynychu'r ddwy ysgol.

### **Pam fod angen gwelliannau diogelwch yma?**

Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi clywed am nifer o bryderon ynglŷn â chyflymder traffig a pharcio peryglus yng nghyffiniau'r ddwy ysgol. Mae cerdded a beicio yn ffordd wych o gynyddu eich gweithgarwch corfforol ac rydym ni eisiau darparu amgylchedd mwy diogel a mwy deniadol er mwyn i bobl allu gwneud hyn.

### **Gwelliannau a Mesurau Diogelwch Arfaethedig**

- Terfyn cyflymder 20mya gorfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â materion goryrru tra'n sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol er mwyn hyrwyddo dulliau llesol o deithio.
- Twmpathau gostegu traffig sy'n addas i feicwyr a 'thwmpathau pen gwastad' er mwyn arafu traffig, gan sicrhau bod y terfyn cyflymder 20mya gorfodol yn 'hunan-orfodaeth', a gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel.
- Cynlluniau Parcio i Breswylwyr er mwyn darparu manau parcio sydd fawr eu hangen i breswylwyr lleol sy'n byw ger yr ysgolion.
- Lledu'r llwybr troed presennol i gyfleuster 3 metr a rennir i Ysgol Tŷ Ffynnon, i'w gwneud hi'n haws i gerdded a beicio mewn i'r ysgol.
- Gwelliannau i'r llwybr troed/llwybr ceffylau presennol rhwng Taliesin Avenue a'r Ganolfan Byd Gwaith, pwll nofio a llyfrgell. Fe fydd cynigion hefyd yn cynnwys gwella'r goleuadau a chlirio'r llystyfiant ar hyd y llwybr.
- Gwelliannau i'r llwybr troed/llwybr beicio presennol sydd yn croesi'r rheilffordd rhwng King George Street a Shotton Lane. Fe fydd cynigion hefyd yn cynnwys gwella'r goleuadau a chlirio'r llystyfiant ar hyd y llwybr.
- Cyfyngiadau parcio er mwyn datrys problem parcio peryglus ar gyffyrdd.
- Traffig dwy ffordd arfaethedig ar gyffordd King George Street a'r B5129 Chester Road West. Bydd hyn yn rhoi gwell mynediad i breswylwyr a cherbydau sy'n gadael Maes Parcio Charmleys Lane i'r B5129.

## Sut y bydd hyn yn effeithio arnaf i fel preswlydd?

Mae eich barn yn bwysig ac fe fydd yn ein helpu i ddarparu cynllun wedi'i addasu. Rydym ni eisiau gwella'r gymuned trwy ddarparu llwybrau mwy diogel.

## Ymgynghoriad ar y Cynllun

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â gwelliannau a fydd yn gwella ansawdd a diogelwch llwybrau i ac o ysgolion, a'r gymuned ehangach i annog dulliau teithio llesol i ddisgyblion, rhieni a thrigolion lleol.

Mae eich barn yn bwysig ac fe fydd yn ein helpu i ddarparu cynllun wedi'i addasu. Rydym ni eisiau gwella'r gymuned trwy ddarparu llwybrau mwy diogel.

Hoffwn glywed eich barn ar y cynigion hyn ac rydym wedi cynnwys cyfres o gwestiynau penodol lle croesawir ymateb.

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan hanner nos ar 9 Tachwedd 2020.

## Sut allaf i wneud sylwadau?

Rydym ni eisiau clywed eich barn am ein cynigion, ond nid yw hi'n bosibl cynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Yn hytrach, rydym eisiau i chi roi eich sylwadau ar-lein trwy fynd i'n gwefan [www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk) a chwilio am 'EForms'.

Ymatebion erbyn: 9 Tachwedd 2020

Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, yna gallwch ffonio i gofrestru eich barn ar:

01352701234

**This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

**Print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar eich cais.**